

Pam Mae Rhywedd yn Bwysig

Mae gormod o bobl yng Nghymru yn profi iechyd gwael neu fywydau byrrach oherwydd anghydraddoldebau iechyd annheg y gellir eu hosgoi. **Mae anghydraddoldeb rhywedd** yn un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

Mae lleihau anghydraddoldeb rhywedd yn helpu i greu teuluoedd iachach, cymunedau cryfach ac economi fwy gwydn.

Mae anghydraddoldebau rhywedd yn cronni ac yn gwaethygu ar draws cwrs bywyd

1 Y blynyddoedd cynnar

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol a chefnidir teuluol yn achosi bylchau cyrhaeddiad cynnar a pharhaus mewn addysg. Mae diffyg mynediad at ofal plant fforddiadwy a hyblyg o ansawdd uchel yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth menywod.




2 Addysg

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn brif yrrwr anghydraddoldebau addysgol. Mae dewis pynciau yn ôl rhyw yn cyfrannu at gyfyngiadau i fynediad menywod i farchnad gwaith gwell.



3 Oedran gweithio

Mae menywod yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rhan-amser ac ansicr â chyflog isel. Mae dod yn rhiant yn aml yn lleihau enillion a chyfleoedd gyrfa menywod. Mae costau gofal plant uchel, cefnogaeth gyfyngedig, ac absenoldeb rhiant anghyfartal yn cyfrannu at y "gosb mamolaeth" hon. Mae menywod yn ymgymryd â chyfran uwch o ofal plant, gwaith domestig a gofal anffurfiol, sy'n effeithio ar eu cyfranogiad yn y farchnad lafur, yn lleihau eu henillion ac yn cynyddu eu risg o dlodi. Nid yw bod â swydd bob amser yn atal tlodi – o'r cartrefi lle mae rhywun yn gweithio, mae mwy yn wynebu tlodi mewn gwaith na'r rhai nad ydynt yn ei wynebu.



4 Yn hwyrach mewn bywyd

Mae enillion is yn arwain at lai o gynilion, cyfoeth, pensïonau ac ansicrwydd economaidd hirdymor dros y cwrs oes.



Mae tlodi ac anghydraddoldebau yn cael eu llunio gan ffactorau lluosog

Mae'r risg o dlodi yn cael ei llywio gan ffactorau fel cyfleoedd cyflogaeth, trefniadau byw, incwm aelwydydd, mynediad at ofal plant a phwysau ehangach, fel costau byw. Menywod sy'n cael eu taro galetaf gan gostau byw cynyddol a phwysau ariannol. Mae teuluoedd mwy a rhieni sengl (menywod yn bennaf) yn wynebu risgiau tlodi uwch.

Mae menywod anabl a menywod o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o fod mewn gwaith rhan-amser ac ansicr â chyflog isel.

Mae trais yn erbyn menywod yn achosi ac yn gwaethygu tlodi ac anghydraddoldeb. Gall hyn gyfyngu ar ddiogelwch, sefydlogrwydd a gallu menywod i weithio.

Beth gallwn ni ei wneud am hyn?

Gellir lleihau tlodi plant ac anghydraddoldebau iechyd trwy wella'r ffordd mae cymorth yn gweithio i deuluoedd a dylunio polisiâu gyda rhywedd mewn golwg. Gelwir hyn hefyd yn **ddull sy'n ymateb yn ôl rhywedd**. Mae hyn yn helpu i greu teuluoedd iachach, cymunedau cryfach ac economi fwy gwydn.



Mae anghydraddoldeb rhywedd yn cyfrannu at gyfraddau uwch o **dlodi plant**, yn arwain at fwy o **straen ariannol** ar deuluoedd, **canlyniadau gwaeth o ran iechyd a lles**, ac yn ehangu anghydraddoldebau iechyd.

Mae buddsoddi yn yr economi gofal yn cael ei gydnabod yn eang fel sbardun pwerus ar gyfer **cydraddoldeb rhywedd a grymuso economaidd i fenywod**.



Gall gweithredu cydlynol ar draws **gofal plant, cyflogaeth a diogelwch cymdeithasol** leihau tlodi a'i atal ar draws cenedlaethau. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chymorth i deuluoedd yn gwella cyfleoedd bywyd ac yn lleihau anghydraddoldebau dros amser.



Mae gwaith da a theg yn cefnogi iechyd gwell. Mae cefnogi **diogelwch economaidd** menywod, ochr yn ochr â mwy o gyfranogiad mewn **gwaith teg**, yn helpu i leihau tlodi mewn gwaith ac yn gwella iechyd a llesiant plant.

Mae systemau diogelu cymdeithasol, trethu a llesiant yn parhau i fod yn rhan ganolog o'r gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd. Gall cymorth symlach, mwy cynhwysol (yn enwedig i deuluoedd a gofalwyr) leihau tlodi.



Mae ymgorffori cyllidebu sy'n ymatebol i rywedd yn offeryn allweddol ar gyfer newid systemig.

Mae dulliau mwy integredig fel modelau **'arian parod a mwy'** yn cynnig potensial i gryfhau gwaith i leihau tlodi.

